

WG 35.5.147

THRENODIA;

SEF,

GALAR GAN,

A GYFANSODD WYD AR YR ACHLYSUB

O FARWOLAFTH

MRS. MARY POWEL,

CEFN FFOREST, PLWYF LLANGYFELACH,

MORGANWG;

Yr hon a ymadawodd a'r byd hwn, yn 62 oed, Mai 27, 1823.

GAN DAFYDD EFANS, TREFORYS.

"A Mair a ddewisodd y rhan dda," &c.—LUC x. 42.

"Yr hon a gymmerodd lawer o boen erom ni."

RHUF. XVI. 6.

"Llawer merch, a weithiodd yn rymus; ond ti a ragor-
aist arnyat oll."—DIAR. XXXI. 29.

ABERTAWY:

Argraffedig yn Swyddfa Seren Gomer, gan J. Harris.

X2053 13 14X

GALAR GAN, &c.

O! Ragluniaeth fawr y nefoedd,
Gweithio 'rwyf yn rhyfedd iawn,
Cym'ryd rhai o'n plith ar gerdded,
Yn feunyddiol foreu a nawn;
Llyfr ydwyf pwy a'th ddarllen?
Oud yn unig Duw ei hun,
Sydd a'i lygaid yn agored,
Yn mhob man yn canfod dyn.

2

Trwm yw'r newydd ddaeth i'm clustiau
Pan yn Merthyr oeddwn i,
Fod y fwynaid Mrs. POWEL,
Gwedi gado'n daear ni;
Heb un gobaith byth ei gweled
Yn y byd lle 'rwyf fi 'nawr;
Minnau'n ddyfal sydd yn myned
Ar ei hol i'r cefnfor mawr.

3

Ar y seithfed dydd ar hugain
O fis Mai, bu farw MAIR,
Yn y flwyddyn oed ein Harglwydd,
Un fil wyth cant deuddeg tair;
Diwrnod olaf o'r mis yma,
Rho'wd ei chorff i lawr mewn bedd,
Cyda'i phriod 'n ymyl Salem,
Pan oedd pawb yn brydd eu gwedd.

4
 Rhwn bregethodd yn ei hangladd,
 Oedd Parchedig Efans, Crwys,
 Yno dywedai mewn modd mwynaidd,
 Ceisiwch ras gan Iesu'n ddwys;
 Lle cymerodd ef ei destyn,
 Ar yr achlysur sobr hyn;
 Salm tri deg a dwy yn 'chwaneg,
 Adnod chwechfed, mewn modd syn.

5
 Ar amgylchiad hwn pregethodd,
 Mr. Efans, Mynydd Bach,
 Yr ail Sabbath 'nol ei chladdu,
 Enwodd dorf o'r duwiol âch;
 Bumed benod ail Corinthiaid,
 Adnod wythfed gym'rodd ef;
 Yno tystiodd yn ngwydd cannoedd,
 Fod ei henaid yn y nef.

6
 D'wedodd lawer iawn am rinwedd,
 Mrs. POWEL tra fu byw,
 Elusengar, mwynaidd, hawddgar,
 Ac mewn hwyl yn caru Duw;
 Cyn ei mharw hi gadd weled,
 Ei holl *blant* yn ufydd iawn
 Gyda'i gilydd yn gweddio,
 Amryw foreu a phrydnawn.

7
 Rhodd anogaeth yn dra odiaeth,
 I'r ymddifaid oedd yn brudd,
 Am ei chanlyn mewn daioni,
 Yn eu bywyd nos a dydd,

O! mor serchog darfu iddo,
 Eu cysuro yn ddible,
 Yn ei waith yn dweyd ei destyn,
 Aeth eich anwyl fam i dre'.

Mrs. POWEL gadd anrhydedd,
 O gresyddda'n foreu iawn,
 Cosio wnaeth hi ei Chreawdwr,
 Cyn bod ddwy-ar-bymtheg lawn,
 Yn Nghwmllynfell cadd ei derbyn,
 Gan yr enwog Dafis fwyn,
 Mewn i'r Eglwys yn dra siriol,
 I gael gwledda gyda'r wŷn.

Yno bu dros rai blyneddau,
 Yn bur weddaidd yn ei lle,
 Gyda'r bobl wynfydedig,
 Oedd yn arddel Brenin ne';
 Gwedi hyny darfu iddi,
 'Nol priodi yn y Llan,
 Fyned ymaith o Gwmllynfell
 Gyda'i Phriod yn y fan.

Mr. POWEL, Cefn Fforest,
 Oedd ei phriod yn y byd,
 Un ag oedd yn ofni'r Arglwydd,
 Ac yn meddu'r trysor drud,
 Gyda'u gilydd darfu iddynt,
 Fod yn ffyddlon dros eu ho's,
 Gadw trefn yn eu teulu,
 Yn bur brydferth ddydd a nos.

Yn y Mynydd Bach y gwelwyd,
 Hwy eill dau o dan y groes,
 Ac o galon yn elodfari,
 Dwyfol rinwedd marwol loes;
 Ioan Powel ddaeth yn addfed,
 O flaen Mair ryw amser maith,
 Yna hedodd mewn gorfoledd
 Gyda'r Iesu dros y traeth.

Oed y fwynaid Mrs. POWEL,
 Pan ymado wnaeth a ni,
 Oedd chwech deg, a dwy yn rhagor,
 'Nol y cyfrif gefais i,
 Bu bum' mlynedd lawn a deugain,
 'N arddel Iesu yn ei dŷ,
 Yn rheolaidd dros ei bywyd,
 Pa le byna' gwelsit hi.

Ei haddysgu gadd yn rhyfedd,
 Yn athrawiaeth sawr y ne'
 Gan y cewri mwyaf gwrol,
 Ar y muriau yn ddible;
 Parchedigiou duwiol dawnus,
 Mr. Dafis, o'r Alltwen,
 'Rhwn mae'n debyg fu offeryn,
 Droï ei gwyneb tua'r nen.

'R athraw arall fu'n ei dysgu,
 Lewis Rees, o'r Mynydd Bach,
 Yn arferyd pob ryw foddion,
 Gael ei henaïd byth yn iach;

Nesaf iddo Dafis ddoniol,
 O'r un lle fu wedi hyn,
 Yn gweinyddu iddi'n gyson,
 Haeddiant Iesu ar y bryn.

Bugail olaf fu'n ei phorthi,
 Yn y Mynydd Bach yn hir,
 Oedd Parchedig Daniel Evans,
 Ar athrawiaeth nefol bur;
 Amryw weithiau cadd ei lloni,
 Dan ei weinidogaeth ef,
 Nes o'r diwedd daeth yn aeddfed,
 'Hedeg wnaeth yn awr i'r nef.

Mawr yw'r golled nawr o'i cholli,
 Yn yr Eglwys gyda ni,
 Parod iawn oedd MAIR bob amser
 Gynnal achos Iesu cu,
 Mae'r frawdoliaeth heddy'n bruddaidd,
 Ac mewn galar ar ei hol;
 Ond 'r un fynydd maent yn moli
 Crist am fyn'd a hi'n ei gol.

Tristwch sydd yn Nghefn Fforest,
 Ac os gofyn rhyw un pa'm,
 Hawdd yw ateb yn bur gyson,
 Achos colli Tad a Mam,
 A fu yma dros eu bywyd,
 Yn ymdrech dros eu plant,
 Yw eu gwneyd i gyd yn ddedwydd,
 Ar eu taith wrth fyn'd i bant.

Mynydd Bach a Chefn Fforest,
 Sydd yn awr mewn galar wisg,
 Ar ol MARY POWEL hawddgar,
 Fu flyneddau yn eu mysg;
 Heb un amser eu gofidio,
 Tra bu yma yn y byd,
 Ond mawr gysur ydoedd iddynt,
 Dros eu dyddiau maith i gyd.

John a Samuel, Ann a Mari,
 Cym'rwch gyngor genyf fi,
 Ceisiwch ganlyn eich rhieni,
 Mewn rhinweddau yn y tŷ;
 Eich ysgwyddau fyddo'n wrol,
 Yn wastadol dan yr arch,
 Fel y byddoch yn yr Eglwys,
 A'r Gym'dogaeth mewn mawr barch.

O! John Powel paid a blino
 Yn ormodol am dy fam,
 Er nad ydyw gydat' heddyw,
 Mai mewn gwlad heb unrhyw nam;
 Gyda'th Dad yn mynwes Iesu,
 'N ymddigryfu heb un gro's,
 Ac yn gwledda gyda'r teulu,
 Ar rinweddau marwol lo's.

Mary Powel bydd yn dawel,
 Er na feddu Fam na Thad,
 Tad'r ymddifaid a'th gysuro,
 Ar dy daith tua'r nefol wlad;

Mae'th rieni mewn dedwyddwch,
 Gyda'r Iesu'n hardd eu gwedd,
 Iddo'n diolch am eu golchi,
 A datguddio'r cyngor hedd.

22

Samuel Powel gwrando dithau,
 Ar anheilwng was y ne',
 Cymer galon a bydd foddlon,
 Mae dy Fam o fewn gwell lle,
 Heb un methiant yn ei mhywes,
 Nac un gofid o'un rhyw,
 Yn ei rhwystro fod yn hwylus,
 Gyda'r seintiau'n moli Duw.

23

O! Ann Powel, plentyn iedgaf,
 O'th rieni ydwy't ti,
 Eto bydd er hyny'n addystaw,
 I'r holl drefn santaidd fry;
 Er mae anwyl Fam a gollaist,
 Ce'st ei mhenthyg gyda Duw,
 Hyd nes darfu iddi'th fagu,
 Fel y gall'sit hebddi fyw.

24

Duw'r bendithion a'ch cynnallo
 Ar eich taith trwy'r anial dir,
 Mewn modd serchog a chariadlon,
 Gan ymofyn am y gwir;
 Gwlithoedd ffrwythlon o Gaersalem,
 Fo'n gafodydd ar eich pen,
 Yw dymuniad f'enaid egwan
 Drosoch oll, gan dd'weyd—AMEN.

D. S. Na fydded i neb argraffu y Farnwad hon heb
 genad yr Awdwr.

Handwritten: Hwylus

Vertical handwritten notes:
 Mae fydded i neb
 hon heb
 genad yr
 argraffu y farwnad